



CYNGOR BRO MORGANNWG
CYNLLUN GWELLA ac AMCANION LLESIANT Rhan I:

AMCANION GWELLA 2017-18

CRYNODEB CYHOEDDUS

Cymunedau
Cryf â
Dyfodol
Disglair

Mehefin 2017

This document is available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.




Mae gan ddinasyddion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da ac maen nhw'n teimlo'n rhan o'r gymuned leol

Amcan Gwella 1: Lleihau tldi ac amddifadedd cymdeithasol

Mae mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth allweddol i'n Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Drwy weithio tuag at yr amcan hwn gallwn sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhan o'r gymuned leol.

Amcan Gwella 2: Darparu tai addas a chymunedau diogel

Mae cartref addas a theimlo'n ddiogel yn y gymuned yn rhan allweddol o ymdeimlad pobl o lesiant. Caiff gwaith ei wneud i wella mynediad i dai o ansawdd yn ogystal â hyrwyddo diogelwch cymunedol. Drwy gadw ein stoc tai, bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod gan breswylwyr fynediad i gartrefi o ansawdd.




Blaenoriaethau Ein Cynllun Corfforaethol Yn ystod 2017/18 byddwn yn:

- Datblygu a chynnig Strategaethau Cynhwysiant Digidol ac Ariannol.
- Gwella hygyrchedd gwybodaeth a chymorth ar ddiwygio Lles.
- Gweithio gyda chymunedau drwy gyfrwng partneriaeth Cymunedau Gwledig Creadigol i wella gwasanaethau a lleihau tldi cefn gwlad.
- Cyflawni projectau drwy gyfrwng y cynllun Llefydd Bywiog a Dichonadwy i herio tldi.
- Gwella aliniad rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau'n Gyntaf a Chefnogi Pobl.
- Gweithio tuag at roi'r Rhaglen Wella Tai Cyngor ar waith a rhaglen adeiladu tai cyngor newydd.
- Gwella ansawdd eiddo rhent preifat tra'n sicrhau bod llety addas a gwasanaethau cymorth ar gael i'r grwpiau mwyaf agored i niwed.
- Cynyddu nifer y tai cynaliadwy a fforddiadwy yn y Fro.
- Rhoi Strategaeth Ddiogelwch Cymunedol newydd ar waith a gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu moddau newydd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig.



Cefnogi trigolion ledled y Fro i gyrchu gwybodaeth, cyngor a chymorth cyson i'w galluogi nhw i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu sefyllfa ariannol trwy roi'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar waith. Lleihau effaith Diwygio Lles ar denantiaid cymdeithasol a chefnogi cyflwyno Credyd Cynhwysol. Rhoi cymorth i gymunedau adnabod eu hanghenion lleol a gwella eu galluedd i gyflawni projectau lleol a chynnal asedau cymunedol.



Gwella strategaeth ddigidol trigolion trwy roi Strategaeth Ddigidol ar waith.



Cyflawni projectau wedi eu targedu sy'n mynd i'r afael â thlodi fel rhan o raglenni Cymunedau'n Gyntaf, Llefydd Bywiog a Dichonadwy, Cefnogi Pobl, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.



Cwblhau Rhaglen Wella Tai Cyngor i wella ansawdd tai i denantiaid cyngor. Adeiladu 13 o dai cyngor newydd a chynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy.



Rhoi llety a chefnogaeth briodol i bobl sy'n agored i niwed drwy uwchraddio llety lloches ac adolygu ein model cyflenwi tai lloches.



Gwella rheolaeth eiddo gwag drwy adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i berchnogion tai a landlordiaid. Gwerthuso llwyddiant Ardal Adnewyddu Castleland a chwilio am ardal adnewyddu newydd. Gwella profiad y tenant trwy ddatblygu Strategaeth Gyfranogi Tenantiaid a phorth cwsmeriaid a datblygu Cynllun Gweithredu Ystadau i wella'r defnydd ar asedau cymunedol.



Lleihau aildroseddu drwy adolygu ein polisiâu a mabwysiadu system gynllunio ac asesu newydd. Mabwysiadu meddalwedd newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dulliau newydd o leihau cam-drin domestig.

BRO LEWYRCHUS SYN GYFRIFOL AM YR AMGYLCHEDD




Mae gan Fro Morgannwg economi gref a chynaliadwy ac mae'r amgylchedd lleol wedi ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

Amcan Gwella 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth

Parhau i wella ar ein record lwyddiannus o ddarparu projectau adfywio ledled y Fro tra'n cydweithio â'n partneriaid fel rhan o Ddinas-Ranbarth Caerdydd i wneud y gorau o'r cyfleoedd i greu swyddi.

Amcan Gwella 4: Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd unigryw ac am ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol tra'n mwynhau ei harddwch a'i amrywiaeth. Mae mabwysiadu ymagwedd fwy cynaliadwy at ddatblygu yn ein galluogi i wneud y gorau o ddefnydd tir at ddibenion tai, cyflogaeth, masnach, twristiaeth, trafndiaeth, mwynau, gwastraff a'r gymuned heddiw ac i'r dyfodol ill dau.



Blaenoriaethau Ein Cynllun Corfforaethol

- Sicrhau'r twf economaidd mwyaf, mewnfuddsoddiad a chyfleoedd cyflogaeth drwy gyfrwng Dinas-Ranbarth Caerdydd, Maes Awyr Caerdydd a Pharth Menter Sain Tathan.
- Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant trwy gyfrwng datblygiadau newydd, adfywio a rheoli asedau'r Cyngor.
- Rhoi rhaglen adfywio gynhwysfawr ar waith ledled y Fro.
- Cyflawni cynlluniau gwella trafndiaeth a rhoi rhwydwaith integredig a Map Teithio Actif ar waith i drigolion deithio'n fwy effeithiol a diogel.
- Rhoi'r Cynllun Rheolaeth Cyrchfannau Twristiaid ar waith ynghyd â rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau.
- Mabwysiadu a rhoi ein Cynllun Datblygu Lleol ar waith fel ein fframwaith datblygu cynaliadwy a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i wella cyfleusterau cymunedol.
- Rhoi'r Cynllun Trafndiaeth Leol ar waith a chwblhau gwelliannau i seilwaith ffordd Five Mile Lane.
- Gwella hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus drwy gyfrwng cynlluniau Gostyngiadau Teithio a chwblhau Llwybr Rhwydwaith Cenedlaethol 88.
- Sicrhau ymagwedd gydlynol i adfywio Ynys y Barri a Thrwyn Nell.
- Adolygu a rhoi Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor ar waith a rhoi Strategaeth Lleihau Gwastraff ar waith er mwyn ailfodelu ein seilwaith gwastraff.
- Gwella bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd.
- Rhoi'r cynllun Rheoli Llifogydd a'r Cynllun Rheoli'r Glannau ar waith i leihau effaith llifogydd.
- Sicrhau Pedair Gwobr Traeth Genedlaethol.

Yn ystod 2017/18 byddwn yn:



Gweithio mewn partneriaeth (yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd) i ddefnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol a datblygiad Parth Menter Sain Tathan i fanteisio i'r eithaf ar y defnydd a wneir o'r tir ac i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth. Datblygu prosiectau adfywio ledled y Fro er mwyn denu buddsoddiad a chreu swyddi newydd.



Gwella ein rhwydweithiau bysiau, seiclo a cherdded er mwyn hyrwyddo teithio llesol.



Cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r Fro fel y 'Lle i fynd' drwy ddarparu amrywiaeth o ddigwyddiadau cyhoeddus arloesol a chynaliadwy ac archwilio cyfleoedd masnachol i ddatblygu twristiaeth ymhellach.



Gwella Five Mile Lane a gwella diogelwch ffyrdd drwy'r Rhaglen Diogelwch Ffyrdd Capital a'r Cynllun Llwybrau Cymunedol Diogel. Hyrwyddo Cynlluniau Gostyngiadau Cludiant (Pas Bws i rai 60+) ac ehangu gwasanaeth Cludiant Cymunedol Greenlinks i wella hygyrchedd cludiant ledled y Fro.



Lleihau ein hól troed Carbon drwy roi'r Rhaglen Rheoli Carbon ar waith, newid i oleuadau LED mewn ardaloedd preswyl ac adolygu ein cerbydau fflyd.



Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllaw Cynllunio Atodol i gefnogi penderfyniadau cynllunio a gwneud y defnydd gorau o dir ac asedau.

Parhau â'r gwaith o ailddatblygu Ynys y Barri i gynnwys archwilio aildddefnyddio Trwyn Nell a chadw ein Gwobrau Glan Môr a Baner Las presennol.



Cyflawni rhaglen o broiectau bioamrywiol i wella a diogelu cynefinoedd bywyd gwylt.



Gwella ein seilwaith rheoli gwastraff a pharhau i ragori ar ein targed ailgylchu cenedlaethol o 58%.




Mae gan holl ddinasyddion Bro Morgannwg gyfleoedd i gyflawni eu llawn botensial.

Amcan Gwella 5: Cynyddu safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol

Ein huchelgais yw sicrhau mai'r deilliannau addysgol yw'r gorau yng Nghymru a'u bod cystal â'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn Lloegr sy'n rhannu proffil economaidd a chymdeithasol tebyg.

Amcan Gwella 6: Rhoi gwerth ar amrywiaeth a diwylliant









Parchwn a gwerthfawrogwn amrywiaeth o fewn ein cymunedau ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo cyfle cyfartal a'r iaith Gymraeg. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd annog pobl o bob oed i fwynhau ein diwylliant a'n treftadaeth unigryw.



Blaenoriaethau Ein Cynllun Corfforaethol

- Gwella safonau cyrhaeddiad i ddisgyblion trwy rannu rhagoriaeth rhwng ysgolion a thargeddu gwell ar adnoddau.
- Sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr sydd mewn peryg o dangyflawni ac i ddysgwyr dros 16 oed tra'n cynyddu'r cyfleoedd dysgu i unigolion dan anfantais a theuluoedd sy'n agored i niwed.
- Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a rhoi Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid ar waith i sicrhau bod pobl ifanc (11-25) yn gallu cyrchu gwasanaethau cymorth ieuenctid.
- Sicrhau deilliannau uchelgeisiol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol fel rhan o'r Mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Datblygu'r rhaglen foderneiddio ysgolion drwy gwblhau'r Gymuned Ddysgu Llanilltud Fawr newydd a datblygu cynigion ar gyfer darpariaeth ysgolion uwchradd yn y Barri.
- Datblygu Rhaglen Foderneiddio Ysgolion newydd yn barod ar gyfer rownd gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif nesaf.
- Gwella ein gwybodaeth o anghenion amrywiol y gymuned, fel y gall grwpiau o bobl a amddiffynnir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gael mynediad gwell at wasanaethau'r Cyngor.
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.
- Gweithredu Safonau'r Gymraeg i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid cymunedol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell amrywiol.
- Adolygu a gweithredu Strategaeth Celfyddydau'r Fro gyda ffocws cynyddol ar farchnata a gwaith rhanbarthol.
- Amddiffyn, cadw a lle bo'n bosibl gwella treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol Bro Morgannwg.

Yn ystod 2017/18 byddwn yn:

-  Datblygu ysgolion hunanwella gan ganolbwyntio ar rannu rhagoriaeth rhwng ysgolion a gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i wella safonau cyrhaeddiad.
 -  Gwella deilliannau dysgu Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rheiny sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim sydd mewn peryg o dangyflawni trwy roi argymhellion Estyn a Llywodraeth Cymru ar waith a chynnig cefnogaeth wedi ei thargeddu yn well. Gwella deilliannau dysgu ar gyfer dysgwyr dros 16 oed drwy sicrhau bod ysgolion yn cynllunio'n effeithiol. Datblygu strategaeth i wella darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag angen addysg heblaw mewn ysgol (EOTAS).
 -  Cynyddu nifer y bobl ifanc 18-24 oed sy'n dechrau ar gyflogaeth a hyfforddiant a thrwy weithio gyda Chymunedau'n Gyntaf a Chanolfan Byd Gwaith a chyflawni'r rhaglenni Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio.
 -  Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid i wella mynediad at wasanaethau ieuenctid ar gyfer pobl ifanc. Gwella darpariaeth cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob ysgol yn unol â Mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru. Creu dwy ysgol uwchradd gymysgryw newydd yn y Barri ac uned feithrin ym Mhenarth fel rhan o'r Rhaglen Foderneiddio Ysgolion.
 -  Gwella ein data monitro cydraddoldeb, i wella hygyrchedd at wasanaethau i'n holl gwsmeriaid. Dod o hyd i safle Teithwyr o Sipsiwn yn y Fro. Gweithio tuag at wobwr arian ar gyfer Gwobr Cydraddoldeb Insport i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol.
 -  Parhau i hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg drwy gyfrwng ein Strategaeth hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chynnig mwy o wasanaethau cymorth yn yr iaith Gymraeg.
 -  Gweithio gyda phartneriaid i barhau i wella ein Llyfrgelloedd cymunedol a lansio system fynediad agored newydd yn Llyfrgell y Barri i roi mynediad i'r cyhoedd at wasanaethau y tu hwnt i oriau gweithio arferol.
 -  Amddiffyn a gwella treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol Bro Morgannwg trwy wneud penderfyniadau cynllunio effeithiol. Gwella gwaith cynllunio derbyn i ysgolion drwy adolygu ein hymagwedd at niferoedd disgyblion a sicrhau y gallwn gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.
- Cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan yn y Celfyddydau trwy roi'r Strategaeth Gelfyddydau ar waith.




Mae trigolion Bro Morgannwg yn arwain bywydau iach ac mae pobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi.

Amcan Gwella 7: Annog a hyrwyddo bywydau actif ac iach

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn greiddiol i wella llesiant pobl a hyrwyddo iechyd da. Mae angen mwy o bwyslais hefyd ar annog cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol i gefnogi patrymau bywyd iach a gwella ansawdd bywyd..

Amcan Gwella 8: Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac amddiffyn ein hamgylchedd

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a diogelu ein trigolion mwyaf agored i niwed. Trwy weithio gyda phartneriaid gallwn ddod ynghyd a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n rhoi anghenion y cwsmer flaenaf ac sy'n gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i lesiant ein trigolion mwyaf agored i niwed, eu teuluoedd a'u gofalwyr.



Blaenoriaethau Ein Cynllun Corfforaethol

- Gweithio gyda phartneriaid i gynnig amrywiaeth o weithgareddau trwy ein cyfleusterau hamdden, cymunedol a pharciau i gynyddu lefelau cyfranogiad mewn gweithgaredd corfforol.
- Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni rhaglen chwarae gynhwysfawr sy'n gwella llesiant plant a'u teuluoedd.
- Cynnig ystod o wasanaethau blynyddoedd cynnar a gwybodaeth i rieni, mynediad at ofal plant a chyfluoedd dysgu.
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd a Llesiant Caerdydd a'r Fro i gymryd camau amrywiol i atal a mynd i'r afael â gordewdra ac annog bwyta'n iach a ffordd iach o fyw.
- Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni Strategaeth Comisiynu Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro 2013-2018.
- Cyflawni statws Baner Werdd ar gyfer 7 parc sy'n arddangos amwynderau da ac ymglymiad y gymuned yn y parciau.
- Rhoi dulliau newydd o weithio ar waith yn unol â Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru).
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy wella cyflymder, symrwydd a dewis sut i gyrchu gwasanaethau.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion ac iechyd cymunedol.
- Archwilio dewisiadau ar gyfer systemau TGCh integredig unigol a chyllidebau integredig ledled rhanbarth Caerdydd a'r Fro ar gyfer gofal cymdeithasol.
- Datblygu a rhoi polisi corfforaethol ar ddiogelu ar waith.
- Lleihau oedi o ran trosglwyddo gofal a rhyddhau o'r ysbyty a darparu Gwasanaeth Datrysiaidau Llety.
- Adolygu llety gyda dewisiadau gofal ar gyfer pobl hŷn a datblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer y dyfodol.
- Gwella gweithdrefnau gyda darparwyr gofal nyrsio, preswyl a gofal cartref i alluogi ymyrraeth gynnar ac atal dwysáu ar ddigwyddiadau a chynnal rhaglen o archwiliadau mewn eiddo sy'n cynnal gweithgaredd masnachol sy'n effeithio ar bobl sy'n agored i niwed.

Yn ystod 2017/18 byddwn yn:



Cynyddu lefelau cyfranogiad mewn gweithgaredd corfforol trwy roi'r Strategaeth Hamdden ar waith a chynnig rhaglen chwarae ledled y Fro.



Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael a blaenoriaethau fel atal ysmegu, gordewdra, atal syrthio, cymorth demensia a chamddefnyddio sylweddau.



Gwella mynediad cerdded a beicio i barciau a chyfleusterau hamdden eraill a chynnal ein 7 gwobr Baner Werdd yn y parciau trefol allweddol.

Gwella Canolfannau Cymunedol y Cyngor i ateb gofynion defnyddwyr yn well.

Hyrwyddo llwybrau cerdded diogel i'r ysgol drwy gynnig Patrols Croesfan Ysgolion mewn lleoliadau uchel eu risg.



Parhau i wella hygyrchedd gwybodaeth a gwasanaethau cynghori i gleientiaid, teuluoedd, gofalwyr a phartneriaid trwy ddatblygu Canolfan Gyswilt Cwsmeriaid y Cyngor a chynyddu'r defnydd ar DEWIS, adnodd gwybodaeth ar-lein ar ofal cymdeithasol i oedolion.

Rhoi system TG integredig newydd ar waith (Welsh Community Care Information Solution) i wella cynllunio a darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Monitro cyflwyno ein Polisi Diogelu Corfforaethol a rhoi Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar waith. Lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i ryddhau pobl o'r Ysbyty drwy ddefnyddio Proses Gymeradwyo Pecyn Gofal newydd.




Adolygu Llety â dewis gofal er mwyn datblygu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol ac ehangu'r Gwasanaeth Gosod Oedolion i alluogi pobl hŷn i barhau i fod yn annibynnol cyn hired ag y bo modd.

Gwella gwasanaethau dydd i bobl ag anabledau corfforol. Sicrhau pontio mwy didrfferth rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion. Rhoi gwasanaeth Awtistiaeth newydd ar waith



Sefydlu tîm Adolygu Gofal Tymor Hir i sicrhau fod pob defnyddiwr gwasanaeth yn derbyn adolygiad blynyddol o wasanaethau a byddwn yn rhoi rhaglen weithredu ar waith i wella ansawdd y gofal i breswylwyr mewn cartrefi gofal.

Cyflawni rhaglen safonau bwyd a hylendid bwyd a chynhyrchu canllaw ar gyfer y sector busnes bwyd. Tynnu cynnyrch peryglus/ffug o'r farchnad a gwireddu newidiadau i'r ddeddf Drwyddedu o safbwynt cyflogi gweithwyr anghyfreithlon.



Cynllunio Integredig yw'r factor allweddol wrth sicrhau llwyddiant...

..... mae'n ein galluogi i gyflawni Blaenoriaethau Ein cynllun Corfforaethol a'n Amcanion Gwella (Amcanion Llesiant) tra'n cyfrannu at ateb y Nodau Llesiant a'r pum dull o weithio. Mae'n golygu mabwysiadu dull integredig o reoli risg, rheoli arian, cynllunio gweithlu, rheoli perfformiad a rheoli gwybodaeth.

Ein dull o weithio.....

Mae pob agwedd ar yr hyn a wnawn wedi ei seilio ar ein pum dull o weithio.

● INTEGREIDDIO

● CYDWEITHIO

● CYFRANOGIAD

● ATAL

● TYMOR HIR

Ein Blaenoriaethau Cynllunio Integredig

Cyflawni rhaglen drawsnewidiol y Cyngor, 'Ailsiapio Gwasanaethau', i ddiwallu anghenion dinasyddion Bro Morgannwg yn y dyfodol yng nghanol heriau ariannol sylweddol.



Alinio'r Cynllun Gweithlu i'r Strategaeth Ailsiapio Gwasanaethau gan sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i addasu i'r newidiadau o ran sut mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu.



Yn ystod 2017/18 byddwn yn:

- Bwrw ymlaen â Cham 1 a Cham 2 y Rhaglen Ailsiapio i wneud arbedion ariannol a rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith.
- Datblygu cynigion i gyflawni Cam 3 y Rhaglen Ailsiapio Gwasanaethau.
- Parhau i ddatblygu ffyrdd gwaith projectau corfforaethol o safbwynt Cyngorau Tref a Chymuned (o safbwynt y rôl bosib y gallant ei chwarae yn rheoli asedau cymunedol a darparu gwasanaethau), Rheoli Galw (i edrych ar sut y byddwn yn cynllunio a rheoli darparu gwasanaethau yn y dyfodol), Effeithlonrwydd Gwariant (i edrych ar wneud y gorau o arian grant) a Bro Ddigidol (sy'n canolbwyntio ar y modd y gallwn ddarparu ein gwasanaethau yn ddigidol tra'n cynyddu sgiliau digidol ein trigolion a'n staff).
- Rhoi Strategaeth Gynhyrchu Incwm ar waith i gefnogi'r dull a'r modd o greu incwm i'w ail-fuddsoddi yng ngwasanaethau'r Cyngor.
- Ymgynghori ar gyllideb 2018/19 y Cyngor gyda phreswylwyr a rhanddeiliaid allweddol i ddiffinio blaenoriaethau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.
- Datblygu rhaglen hyfforddiant i gefnogi rheolwyr o ran darparu'r projectau Ailsiapio Gwasanaethau.
- Adolygu Cynllun Gweithlu'r Cyngor i sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau gan ein staff i gyflenwi ffurfiau eraill ar ddarpariaeth gwasanaethau.
- Rhoi Strategaeth Hyfforddi a Datblygu wedi ei hadolygu ar waith ac adnewyddu rhaglen sefydlu'r Cyngor i wella dealltwriaeth y cyflogai o'n gweledigaeth a'n gwerthoedd.
- Gwerthuso ein Cynllun Cynllunio Olyniaeth a Rheoli Talent a'i weithredu ym mhob rhan o'r Cyngor. Parhau i gefnogi'r Caffi Arweiniol a lansio ein Fframwaith Cymhwysedd Rheolwyr i hyrwyddo datblygiad arweinyddiaeth.
- Adolygu a chryfhau ein hymagwedd at reoli presenoldeb (absenoldeb) staff.
- Dechrau rhoi'r Model Gweithredu Adnoddau Dynol newydd ar waith ac archwilio dewisiadau ar gyfer Gwasanaethau a Rennir Iechyd a Diogelwch gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr.

Sut y byddwn yn mesur cynnydd?



Rydym yn adolygu ein cynnydd bob chwarter drwy adrodd i'n haelodau etholedig ac i'r cyhoedd ar welliannau a gyflawnwyd a'r meysydd lle mae angen i ni wella. Gwnawn hyn drwy adrodd wrth Dîm Rheolaeth Gorfforaethol y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu ar ffurf adroddiadau perfformiad y gellir eu gweld ar [wefan](#) y Cyngor.

- Yn ogystal â chyhoeddi ein Amcanion Gwella rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd mis Hydref sy'n adolygu ein perfformiad o safbwynt Amcanion Gwella'r flwyddyn flaenorol sef y Cynllun Gwella Rhan 2. Adroddir ar ein perfformiad cyffredinol yn erbyn Amcanion Gwella 2017-18 ym mis Hydref 2018.

How to get involved



Gallwch gymryd rhan drwy ymuno â Vale Viewpoint (ein Panel Dinasyddion) a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau. Cwblhewch y [ffurflen gryno ar-lein](#).

Mae Pwyllgorau Craffu ar agor i'r cyhoedd a gallwch gymryd rhan drwy wneud cais bod gwasanaeth/mater yn cael ei ystyried drwy gwblhau [ffurflen Ystyriaeth ar gyfer Adolygu](#) neu gallwch gofrestru i siarad ar [wefan](#) y Cyngor.



I basio sylw ar y Cynllun neu i gynnig Amcanion Gwella newydd, cysylltwch â ni yma:
Llythyrau: Perfformiad a Datblygu, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holtwn, Y Barri, CF63 4RU.
E-bost: improvements@valeofglamorgan.gov.uk
Ffôn: 01446 700101